**Gwenda Thomas AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LF/GT/0897/13

David Melding AC
Cadeirydd, Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

25 Medi 2013

Annwyl David,

Rwy'n ysgrifennu i gofnodi fy niolch i'r Pwyllgor am yr ystyriaeth gynhwysfawr a roddodd i'r Bil hwn. Mae eich gwaith yn craffu ar y Bil yn hanfodol os ydym am i'r ddeddfwriaeth hon lwyddo a deallaf fod fy Swyddfa Breifat wedi cysylltu â chi i drefnu cyfarfod i drafod yr adroddiad ymhellach cyn y drafodaeth yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Hydref

Cyn hynny, roeddwn i eisiau rhannu â'r Pwyllgor fy ymatebion i nifer o'r argymhellion a wnaed, ac rwy'n ystyried gosod diwygiadau ger bron yn eu cylch fel a ganlyn:

- Newidiadau trefniadol i'r weithdrefn ddeddfwriaethol o Negyddol i Gadarnhaol mewn perthynas â'r adrannau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| 3(6) | – | Ystyr anabl |
| 7(3) | – | Diffiniadau o: mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol a sefydliadau trydydd sector |
| 9(3) | – | Diffiniadau o: dall, byddar a dall a byddar |
| 23 | – | Dyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn |
| 26 | – | Dyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth gofalwr sy'n oedolyn |
| 27 | – | Dyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth gofalwr sy'n blentyn |
| 105(9) | – | Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion |
| 112(4) | – | Swyddogaethau a gweithdrefnau Byrddau Diogelu |

- Newid yn y weithdrefn o Gadarnhaol i Uwchgadarnhaol ar gyfer Adran 117, sy'n ymwneud â'r pŵer i uno Byrddau Diogelu Oedolion a Phlant.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn hefyd i gyflwyno tabl sy'n rhoi crynodeb o'r categorïau o ddiwygiadau rwy'n argymell eu gosod ger bron ar ran y Llywodraeth yn ystod Cyfnod 2. Roeddwn i eisiau gwneud hyn cyn i'r broses gychwyn yn ffurfiol ym mis Hydref er mwyn i chi gael cymaint o amser ag y bo modd i ystyried effaith bosibl y newidiadau hyn.

Gobeithio eich bod yn cytuno bod y diwygiadau uchod a'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn y tabl a atodwyd yn ddarlun clir o'm hymrwymiad i wrando ar y Pwyllgor ac ar randdeiliaid.


Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Gwenda.Thomas@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)* *Printed on 100% recycled paper*

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn a’r tabl o’m hymatebion i’ch argymhellion at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yr eiddoch yn gywir



**Gwenda Thomas AC**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol